Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru

## Beth rydych chi'n gallu ei wneud a beth mae'n rhaid i chi ei wneud




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei deall o '**Y Cynllun Bathodyn Glas: Hawliau a Chyfrifoldebau yng Nghymru**'.

Chwefror 2024

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma lyfryn hawdd ei ddeall. Ond efallai y bydd angen help arnoch i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Pan mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hynny'n golygu **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth ewch i:

**Gwefan:**
www.llyw.cymru/gwneud-cais-neu-gais-newydd-am-fathodyn-glas

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei deall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247.**

# Cynnwys


**Am y llyfryn yma** ........ **4**

**Beth mae'n rhaid i chi ei wneud** ........ **6**

- Pwy sydd yn gallu defnyddio'r bathodyn? ........ 8
- Dangos y bathodyn ........ 9
- Defnyddio'r cloc parcio ........ 10
- Pwy sydd yn gallu edrych ar y bathodyn ........ 11
- Hen fathodyn ........ 12
- Rhoi eich bathodyn yn ôl ........ 13
- Os byddwch chi yn colli'ch bathodyn ........ 14
- Gyrru ........ 15
- Cysylltu â'ch cyngor ........ 16

**Beth rydych chi'n gallu ei wneud** ........ **17**

- Parcio gyda Bathodyn Glas ........ 17
- Lle rydych chi'n gallu parcio gyda bathodyn glas ........ 17
- Lleoedd y mae angen i chi edrych arnyn nhw cyn parcio ........ 20
- Lleoedd lle dydych chi ddim yn cael parcio ........ 22

**Parcio diogel** ........ **25**

**Bathodynnau Glas ar gyfer sefydliadau** ........ **27**

- Rhoi bathodyn sefydliadol yn ôl ........ 28

**Gwybodaeth Arall** ........ **29**

**Dysgu rhagor** ........ **33**


# Am y llyfryn yma

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Ni ydy Llywodraeth Cymru.



Mae'r llyfryn yma yn dweud beth rydych chi'n gallu ei wneud a beth sy'n rhaid i chi ei wneud os oes gennych chi **Fathodyn Glas**.



Mae'r **Bathodyn Glas** yn eich helpu i barcio yn agos at lle mae angen i chi fynd. Rydych chi'n gallu bod yn yrrwr neu'n deithiwr.




Darllenwch y llyfryn yma cyn defnyddio'ch bathodyn. Cadwch y llyfryn i edrych arno yn nes ymlaen.



Os oes gennych chi gwestiynau, gofynnwch i'ch cyngor. Eich cyngor chi sy'n gyfrifol am y **Bathodyn Glas**.

## Rydych chi'n gallu ysgrifennu manylion eich bathodyn yma:

Rhif cyfres y **Bathodyn Glas**. Dyma'r rhif sydd ar eich bathodyn.

Y cyngor sydd wedi ei roi i chi.

Cyfeiriad y cyngor.

Rhif ffôn y cyngor.

Dyddiad dod i ben y **Bathodyn Glas**. Dyma'r dyddiad mae eich bathodyn yn gorffen.

Y dyddiad rydych chi'n gallu gofyn am fathodyn newydd.

# Beth mae'n rhaid i chi ei wneud



Os oes gennych chi **Fathodyn Glas**, mae rhai pethau mae'n rhaid i chi eu gwneud.



Ond efallai bydd rhaid i chi dalu am barcio o hyd. Edrychwch ar yr arwyddion bob amser.




Dilynwch y rheolau pan fyddwch chi yn defnyddio'r **Bathodyn Glas**. Mae'n erbyn y gyfraith i dorri'r rheolau. Efallai y bydd rhaid i chi dalu £1,000.




Os bydd rhywun yn eich gyrru, dywedwch wrthyn nhw am y rheolau yn y llyfryn yma.




Edrychwch ar yr arwyddion pan fyddwch chi yn parcio.




Peidiwch â gwneud bathodyn ffug na newid unrhyw beth arno.




Mae  rheolau’r **Bathodyn Glas** ar  gyfer parcio ar y stryd yn unig.



Mae gan lefydd fel ysbytai, siopau a meysydd parcio’r cyngor reolau gwahanol.


# Pwy sydd yn gallu defnyddio'r bathodyn?



Dim ond i chi mae'r bathodyn.



Dangoswch y bathodyn pan fyddwch chi yn yrrwr neu'n deithiwr. Neu pan fydd rhywun yn eich codi neu'n eich gollwng chi.



Peidiwch â gadael i bobl eraill ddefnyddio'ch bathodyn i barcio oni bai eich bod chi gyda nhw. Hyd yn oed os ydyn nhw'n gwneud rhywbeth i chi.



Peidiwch â rhoi eich bathodyn i ffrindiau neu deulu, hyd yn oed os ydyn nhw yn ymweld â chi.




Ddylai neb ddefnyddio'ch bathodyn ar gyfer nhw eu hunain tra byddwch chi yn eistedd yn y car.

# Dangos y bathodyn



Dangoswch y bathodyn pan fyddwch chi yn parcio. Rhowch y bathodyn ar y dangosfwrdd neu'r beic, fel bod pobl yn gallu ei weld. Mae'r dangosfwrdd ar flaen y tu mewn i'r car.



Os nad oes gan eich car ddangosfwrdd, rhowch ef yn rhywle arall. Mae'n rhaid iddo fod mewn man lle mae pobl yn gallu ei ddarllen o'r tu allan.




Fe ddylai'r bathodyn fod ochr flaen i fyny, gyda'r arwydd cadair olwyn yn dangos.



Peidiwch â dangos yr ochr gyda'ch llun.



Gwnewch yn siŵr bod y bathodyn yn glir i'w weld. Efallai y byddwch yn cael dirwy os nad ydy'r bathodyn i'w weld yn glir.

# Defnyddio’r cloc parcio



Pan fyddwch chi’n parcio ar linellau melyn gyda therfynau amser, dangoswch y cloc.



Rhowch y cloc ar y dangosfwrdd, fel bod pobl yn gallu gweld yr amser o’r ffenestr flaen.




Fe ddylai’r cloc ddangos y **15 munud** pan wnaethoch chi gyrraedd yno. Os nad oes gan eich car ddangosfwrdd, rhowch ef yn rhywle arall.



Mae’n rhaid ei fod mewn lle mae pobl yn gallu ei ddarllen o’r tu allan.

# Pwy sydd yn gallu edrych ar y bathodyn



Mae rhai pobl yn gallu edrych ar y bathodyn a chymryd y bathodyn. Mae'n rhaid i chi ei ddangos iddyn nhw os ydyn nhw'n gofyn. Maen nhw'n cael eu galw yn:

- Swyddogion heddlu
- Wardeiniaid traffig
- Cynorthwywyr parcio
- Swyddogion gorfodi sifil.



Os nad ydych chi yn dangos eich bathodyn iddyn nhw, fe fyddwch chi yn torri'r gyfraith. Efallai y bydd rhaid i chi dalu £1,000.




Rhaid iddyn nhw ddangos eu cerdyn i chi gyda'u llun.

# Hen fathodyn




Edrychwch ar y dyddiad ar eich bathodyn. Peidiwch â'i ddefnyddio os ydy e wedi mynd heibio'r dyddiad gorffen.




Gofynnwch am fathodyn newydd 12 wythnos cyn dyddiad gorffen eich bathodyn.



Rydych chi'n gallu gofyn i'ch cyngor neu ar y wefan GOV.UK.




Os ydych chi yn defnyddio hen fathodyn efallai y bydd rhaid i chi dalu dirwy neu fynd i'r llys.


## Rhoi eich bathodyn yn ôl



Mae angen i chi roi'r bathodyn yn ôl i'ch cyngor os:



- Rydych chi'n gwella a does dim ei angen arnoch.




- Rydych chi'n ei golli, yn cael un newydd ac yn dod o hyd i'r hen un. Yna rhaid i chi roi yr hen un yn ôl.




- Mae'r bathodyn wedi torri neu'n anodd ei ddarllen.



- Dydych chi ddim eisiau'r bathodyn.



- Mae'r person oedd â'r bathodyn wedi marw.



Peidiwch â defnyddio’r bathodyn pan nad oes ei angen arnoch. Efallai y bydd rhaid i chi dalu £1,000 neu fynd i’r llys.



Mae eich cyngor yn gallu cymryd y bathodyn yn ôl os ydych chi yn ei ddefnyddio yn y ffordd anghywir.

## Os byddwch chi yn colli’ch bathodyn



Dywedwch wrth yr heddlu os byddwch chi yn colli’ch bathodyn, neu os ydy e’n cael ei ddwyn.



Yna dywedwch wrth y cyngor am y **cyfeirnod trosedd** gan yr heddlu.




Fe fydd eich cyngor yn rhoi bathodyn newydd i chi. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu £10 punt.

# Gyrru

Dywedwch wrth y **DVLA** (Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau) os ydych chi yn gyrru a bod gennych chi broblem sy'n gwneud gyrru'n anodd hyd yn oed gyda char wedi'i addasu.



**Ffôn:** 0300 790 6806



**Ysgrifennwch at:** DVLA<br>
Abertawe<br>
SA99 1TU



**E-bost:** eftd@dvla.gsi.gov.uk

# Cysylltu â'ch cyngor



Mae angen i chi ddweud wrth eich cyngor os bydd rhywbeth yn newid, fel:



- Mae eich bathodyn wedi pasio ei ddyddiad gorffen.



- Rydych chi wedi colli'ch bathodyn, neu mae wedi cael ei ddwyn neu ei dorri.



- Rydych chi'n symud i gyfeiriad gwahanol.




- Rydych chi'n newid eich enw olaf.



- Dydy eich llun ar y bathodyn ddim yn edrych fel chi nawr.

# Beth rydych chi’n gallu ei wneud

## Parcio gyda Bathodyn Glas



Dydy’r **Bathodyn Glas** ddim yn gadael i chi barcio ym mhobman.

## Lle rydych chi’n gallu parcio gyda bathodyn glas

**Llinellau melyn:**



Rydych chi’n gallu parcio ar linellau melyn sengl neu ddwbl am 3 awr. Mae’n rhaid i chi barcio’n ddiogel a pheidio â rhwystro’r ffordd.




Os oes arwyddion sy’n dweud dim llwytho na dadlwytho edrychwch ar hyn cyn i chi barcio. Mae rhai lleoedd yn gadael i chi barcio, ac eraill ddim.




Dangoswch eich **Bathodyn Glas** a’r cloc gyda’r amser rydych chi wedi cyrraedd yno.



Arhoswch **1 awr** cyn parcio’r un car ar yr un stryd ar yr un diwrnod.



Dydych chi ddim yn gallu parcio ar linellau melyn mewn meysydd parcio sydd ddim ar y stryd.



## Mesuryddion a pheiriannau parcio ar stryd:

Mae rhai cynghorau’n gadael i ddeiliaid y **Bathodyn Glas** barcio am ddim. Dydy pob un ddim yn gwneud hynny. Edrychwch i weld cyn parcio.



Dangoswch eich **Bathodyn Glas**.




**Mannau parcio i bobl anabl ar y stryd. Fe fydd arwydd cadair olwyn glas:**




Parciwch am ddim ac am cyn hired ag sydd ei angen oni bai bod arwyddion yn dweud yn wahanol. Edrychwch ar yr arwyddion.



Dangoswch eich **Bathodyn Glas**.




Os ydy'r lleoedd hyn yno, defnyddiwch nhw. Peidiwch â pharcio ar linellau melyn.

# Lleoedd y mae angen i chi edrych arnyn nhw cyn parcio




Edrychwch ar y rheolau cyn i chi barcio. Gofynnwch i'r lle os nad ydych chi yn siŵr.

**Meysydd parcio sydd ddim ar y stryd. Fel mewn siopau, ysbytai neu feysydd parcio'r cyngor**



Efallai fod gan feysydd parcio leoedd i bobl anabl.




Mae'r bobl sy'n rhedeg y meysydd parcio yn dewis a oes rhaid i ddeiliaid y **Bathodyn Glas** dalu.




Edrychwch ar yr arwyddion am reolau ac os oes rhaid i chi dalu.

**Trefi:**




Chwiliwch am arwyddion gan fod gan drefi reolau gwahanol.

## Lleoedd gyda pharcio am ddim ar y stryd i unrhyw un




Parciwch cyn hired ag sydd ei angen oni bai bod arwyddion yn dweud yn wahanol. Edrychwch ar yr arwyddion cyn parcio.



Os oes terfyn amser, dangoswch y cloc glas gyda’r amser yr ydych chi wedi cyrraedd yno.



## Ffyrdd mewn meysydd awyr


Cysylltwch â’r maes awyr i ofyn sut i barcio cyn i chi fynd.




## Ffyrdd sy’n perthyn i rywun

Peidiwch â pharcio oni bai bod y person sy’n berchen ar y ffordd yn dweud eich bod yn gallu gwneud hynny.

# Lleoedd lle dydych chi ddim yn cael parcio



- Ffyrdd gyda marciau melyn neu arwyddion sy'n dweud dim llwytho na dadlwytho.




- Lleoedd i breswylwyr, deiliaid trwyddedau neu fannau llwytho.



- Parthau Cerddwyr. Mae'r rhain yn lleoedd i bobl gerdded yn unig, oni bai bod arwyddion yn dweud eich bod yn cael parcio.




- Lle mae pobl yn croesi'r ffordd, gan gynnwys llinellau igam ogam.



- Lle dydych chi ddim yn gallu stopio o gwbl.




- Arosfannau bysiau.




- Clirffordd drefol. Mae hyn yn meddwl dim parcio yn y ddinas ar adegau penodol. Dim ond casglu neu ollwng pobl rydych chi'n gallu ei wneud.




- Wrth ysgolion gyda marciau melyn **Cadwch yn Glir**.




- Marciau **Cadwch yn Glir** mewn mannau eraill. Fel lle mae angen i ambiwlansys fynd.



- Lonydd bws, tram neu feic. Dydych chi ddim yn gallu gyrru mewn lonydd bysiau pan fyddan nhw yn cael eu defnyddio.



- Ffyrdd gyda 2 linell wen yn y canol. Hyd yn oed os ydy un ohonyn nhw ddim yn solet.




- Lle dydy mesuryddion ddim yn gweithio neu ddim yn cael eu caniatáu



- Lle does neb yn cael parcio am gyfnod. Fel conau sy'n dweud dim aros.



- Wrth gyrbau is, gyda neu heb farciau **H**. Mae hwn yn farc ar y ffordd sy'n edrych fel llythyren **H**.

# Parcio diogel



Parciwch yn ddiogel a dim ar ffordd pobl na cheir.

Peidiwch â pharcio ar balmentydd sy’n rhwystro cadeiriau olwyn neu bobl sy’n cerdded.

Peidiwch â pharcio yn y mannau yma, neu fannau eraill fel nhw:



- Yn agos at ysgolion, arosfannau bysiau, gelltydd, neu bontydd.



- O fewn 10 metr i gornel. Oni bai bod lle parcio wedi’i farcio.



- Ffyrdd cul.



- Gatiau neu dreifiau.



- Lle mae angen i ambiwlansys fynd.



- Cyrbau isel.



- Ar balmentydd, oni bai bod arwyddion yn dweud eich bod chi yn gallu gwneud hynny.



Os ydych chi'n parcio lle rydych chi'n achosi perygl, efallai bydd rhaid i chi dalu arian neu fynd i'r llys. Efallai bydd eich car a'ch bathodyn yn cael eu cymryd.

# Bathodynnau Glas ar gyfer sefydliadau




Mae'r rheolau nesaf ar gyfer sefydliadau. Rhaid iddyn nhw hefyd ddilyn y rheolau ar gyfer deiliaid **Bathodyn Glas**.



Mae sefydliadau yn gallu gofyn am eu **Bathodyn Glas** eu hunain gan y cyngor.



Mae'n rhaid i chi fod yn gofalu am ac yn cludo pobl anabl sydd angen **Bathodyn Glas**. Dim ond ar gyfer hyn rydych chi'n gallu defnyddio'r bathodyn.




Mae gan fathodyn y sefydliad ei stamp neu logo arno, nid llun. Peidiwch â dangos yr ochr yma i'r bathodyn.



Dim ond wrth yrru pobl sy'n gallu cael **Bathodyn Glas** rydych chi'n cael defnyddio'r bathodyn. Dangoswch y bathodyn pan fydd car neu fan y sefydliad yn gollwng neu'n codi pobl.



Peidiwch â chopïo na newid y bathodyn. Fe fydd y cyngor yn ei gymryd yn ôl os ydych chi  yn ei ddefnyddio yn y ffordd anghywir.




Ddylai gweithwyr ddim defnyddio'r bathodyn ar eu cyfer eu hunain neu bethau eraill. Fe ddylai pob gweithiwr wybod y rheolau yn y llyfryn yma.



Mae'n erbyn y gyfraith i ddefnyddio'r bathodyn yn y ffordd anghywir. Efallai bydd rhaid i chi dalu £1,000 neu fynd i'r llys.

## Rhoi bathodyn sefydliadol yn ôl



Yn ogystal â beth mae **tudalen 13** yn ei ddweud, rhowch y bathodyn yn ôl os ydy'r sefydliad:

- Yn cau i lawr.
- Ddim yn gofalu am bobl sydd yn gallu cael **Bathodyn Glas.**
- Ddim angen y bathodyn.



Dywedwch wrth y cyngor os bydd cyfeiriad y sefydliad yn newid.

# Gwybodaeth Arall




Mae rheolau eraill pan rydych chi'n teithio tu allan i Gymru.




**Parthau Allyriadau Isel yn y Deyrnas Unedig**

Mae'r rhain yn lleoedd lle efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os ydy eich cerbyd yn gwneud llawer o fygdarth.




Ewch i www.gov.uk/clean-air-zones. Edrychwch ar y rheolau a'r costau cyn teithio.



**Consesiynau Tollau**

Tollau ydy'r ffioedd mae'n rhaid i chi eu talu ar rai ffyrdd neu bontydd.




Efallai na fydd rhaid i ddeiliaid Bathodyn Glas dalu tollau mewn rhai mannau. Edrychwch ar www.gov.uk/toll-concessions




## Teithio yn Llundain

Dydy'r cynllun Bathodyn Glas ddim yn gweithio mewn rhai rhannau o Ganol Llundain. Cysylltwch â Bwrdeisdref Llundain neu ewch i [www.gov.uk/find-local-council.](http://www.gov.uk/find-local-council)

## Cynllun Tâl Tagfeydd Canol Llundain



Mae hwn yn dâl mae'n rhaid i bobl ei dalu i yrru mewn rhai rhannau o Lundain.

Gyda'ch bathodyn does dim rhaid i chi dalu'r tâl tagfeydd. Ond mae'n rhaid i chi gofrestru gyda Trafnidiaeth Llundain a thalu £10, 10 diwrnod cyn eich taith.

**Ewch i:**
[www.tfl.gov.uk/modes/driving/cc-blue-badge-before-you-begin-29758](http://www.tfl.gov.uk/modes/driving/cc-blue-badge-before-you-begin-29758)



**Ysgrifennwch at**: Congestion Charging
PO Box 344
Darlington
DL1 9QE



**Ffôn:** 0343 222 2222

**Neges destun neu ffôn:** 020 7649 9123.



**Teithio y tu allan i’r  Deyrnas Unedig**

Rydych chi’n gallu argraffu a dangos papur cyfieithu gyda’ch bathodyn pan fyddwch chi y tu allan i’r DU.



Rydych chi’n gallu ei gael o:

www.disabledmotorists.eu/en/world_map/europe/europe.htm

Mae yma  wybodaeth am wahanol wledydd yn Ewrop.



www.europa.eu/youreurope/citizens/travel/transport-disability/index_en.htm

Mae gwybodaeth yma am wledydd gwahanol yn Ewrop.



**Yr Undeb Ewropeaidd, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir**

Rydych chi'n gallu defnyddio Bathodyn Glas y Deyrnas Unedig yn:

- Rhai o wledydd yr Undeb Ewropeaidd
- Liechtenstein
- Norwy
- Y Swistir.

Department for Transport

Edrychwch i weld pa wledydd: Defnyddio Bathodyn Glas yn yr Undeb Ewropeaidd.




Ewch i GOV.UK am wybodaeth newydd. Chwiliwch am wybodaeth leol cyn teithio.



**Gweddill y byd**

Fel arfer, dydych chi ddim yn gallu defnyddio'r bathodyn y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Fel yn yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia neu Seland Newydd. Efallai y bydd rhai gwledydd yn derbyn y bathodyn. Holwch cyn teithio.

# Dysgu rhagor



Os oes gennych chi gwestiynau, gofynnwch i'ch cyngor. Eich cyngor chi sy'n gyfrifol am y **Bathodyn Glas.**

I gael mwy o gopïau o'r llyfryn yma:



**E-bost**: CustomerHelp@llyw.cymru



**Ffôn**: 0300 0604400

Rydych chi'n gallu gael y llyfryn yma yn Saesneg. Rydych chi'n gallu ysgrifennu atom neu ein ffonio yn Gymraeg neu Saesneg.